# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 7

CYFFREDINOL

### 79 Ystyr "ysgol a gynhelir", "ysgol feithrin a gynhelir" ac ymadroddion cysylltiedig

(1) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr "ysgol a gynhelir" yw—

(i) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, neu

(ii) ysgol arbennig gymunedol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, ac eithrio ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty;

(b) ystyr "ysgol feithrin a gynhelir" yw ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru ac nad yw'n ysgol arbennig.

(2) Yn y Ddeddf hon, mae i'r ymadroddion a ganlyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31)—

"ysgol arbennig gymunedol" ("*community special school*")

"ysgol gymunedol" ("*community school*")

"ysgol sefydledig" ("*foundation school*")

"ysgol wirfoddol" ("*voluntary school*")

"ysgol wirfoddol a gynorthwyir" ("*voluntary aided school*")

"ysgol wirfoddol a reolir" ("*voluntary controlled school*").

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 79. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 79 mewn grym ar 30.4.2021, gweler **a. 84(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 79.